



CYNGOR TREF
AMLWCH
TOWN COUNCIL

Swyddfa'r Cyngor, Llawr y Llan, Lon Goch, Amlwch, Ynys Mon, LL68 9EN
Epost/Email: swyddfa@cyngortrefamlwch.co.uk
Ffon/Tel: 01407 832 228

Cyngor Tref Amlwch Town Council

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth Mawrth 27 2018 yn Siambr y Cyngor am 7yh.
Minutes of the meeting held at the Council Chamber on Tuesday March 27 2018 at 7pm.

Presennol/Present: Gareth Winston Roberts OBE (Cadeirydd/Chair), Meg Roberts, Myrddin Owens, Gerry Belanger, Mike Roberts, Gordon Warren, Gina Jones, Cyng/Cllr Richard Griffiths, Cyng/Cllr Richard Jones, Cyng/Cllr Aled Jones.

Yn bresennol/In attendance: Hywel Hughes (Cyfieithu/Translation), Carli Evans-Thau (Clerc/Clerk), y wasg / the press.

Ymddiheuriadau/Apologies: John Byast, Liz Wood, Julie Hughes,

1 Croeso/Welcome

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Gareth W Roberts OBE ac fe groesawyd pawb oedd yn bresennol.
The meeting was chaired by Gareth W Roberts OBE and all present were welcomed.

2 Datgan Diddordeb/Declaration of Interest

Gareth W Roberts – Craig Y Don

3 Cofnodion y cyfarfod diwethaf/Minutes of the last meeting

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir. Cynnig Myrddin Owens, eilio Meg Roberts.
The minutes were accepted a true record. Proposed Myrddin Owens, seconded Meg Roberts

4 Materion yn codi/Matters arising

4.1 Cae Chwarae Maes Llwyn Play Area

Nododd Richard Jones bod y cofnodion yn rhoi'r argraff nad oedd wedi bod yn gwneud dim. Roedd fodd bynnag wedi bod yn gweithio gyda swyddogion CSYM a'u bod hwythau wedi bod yn hir yn cytuno les ar y tir newydd, dileu'r hen les a pheidio a chodi unrhyw gostau cyfreithiol.

Richard Jones noted that the minutes gave the impression that he had not been doing anything. He had however been working with IACC officers and that they had been slow coming forward to agree a lease on the new land, cancel the old lease and to not charge any legal fees.

4.2 Comisiynydd Heddlu / Police Commissioner

Angen dyddiad newydd i gwrdd a'r Comisiynydd cyn gynted a phosib.
A new date is required to meet with the Commissioner as soon as possible.

4.3 Cloc y Dref / Town Clock

Nododd Gordon Warren bod angen gwaith proffesiynol i drwsio'r cloc cyn bydd posib i'r gloch ganu eto.

Gordon Warren noted that some professional work is required to fix the clock before it will be able to chime again.

4.4 Baw Ci / Dog Fouling

Nodwyd bod swyddog CSYM wedi ymweld a'r ardal ac wedi trefnu bod bin newydd yn cael ei osod

ar y groesfan ger yr Orsaf Dan a Lon Bach. Mae cardiau post ar gael yn y Swyddfa os oes unrhyw un am godi ymwybyddiaeth o broblem llygru yn ddi-enw. Gyda'r newyddion fod Kingdom wedi dileu'r gytundeb rhyngthynt a'r Cyngor Sir, fe ofynnwyd pwy fyddyn gyfrifol am y gwaith yma – oes gan CSYM ddigon o swyddogion?

It was noted that the IACC officer had visited the area and had arranged for a new bin to be fitted on the junction by the Fire Station and Lon Bach. Post cards are available at the office if anyone wishes to report any issues anonymously. With the news that Kingdom have terminated the contract with the County Council, it was asked who would be responsible for the work now – have the IACC got enough officers?

4.5 Stryd Salem Street

Nid oes camau wedi eu cymryd hyd yma. Roedd CSYM yn disgwyl ymateb gan y Cyngor Tref, a heb gydnabod yr hyn oedd y Cynghorwyr Sirol wedi adrodd yn ol. Pwysleiswyd pwysigrwydd bod y gwaith i ddiogelu'r gyffordd yn cael ei wneud cyn gynted a phosib.

No steps have been taken as yet. IACC were waiting on a response from the Town Council and had not acknowledged what the county councillors had reported back. The importance of safeguarding the junction as soon as possible was emphasised.

4.6 Mynydd Parys

Cadarnhaodd Mike Roberts bydd dyddiadau eraill i'w gadarnhau ar gyfer gwahanol weithgareddau drwy'r flwyddyn i ddathlu. Gofynnwyd i'r clerc drefnu cyfarfod gyda cynrychiolwyr Cyngor Llanelian a Chyngor Rhosybol cyn gynted a phosib i drafod prosiect ar y cyd.

Mike Roberts confirmed that other dates were to be confirmed for various activities throughout the year to celebrate. The clerk was asked to arrange a meeting with representatives from Llanelian and Rhosybol councils as soon as possible to discuss a project in partnership.

4.7 Ysgolion a Thywydd Gwael / Schools and Bad Weather

Cafwyd wybod gan Richard Jones mai mater i'r prifathrawon oedd penderfynnu os oedd ysgol yn cael neu peidio, a hynnu ar ol ystyried ac asesu nifer o wahanol ffactorau. Teimlai aelodau eraill nad oedd yr ysgolion yn deall yr effaith o beidio agor ar deluoedd oedd yn colli cyflog oherwydd diffyg gofal plant ar fyr rybydd. Roedd ysgolion eraill ar yr ynys ar agor. Byddai Richard Jones yn adrodd yn ol i'r ysgol. Nododd bod disgyblion lefel A yn yr ysgol dros y gwyliau yn dal i fynu a'r gwersi a gollwyd yn rhad ac am ddim.

Richard Jones noted that it was a matter for the head teachers to decide whether a school was open or not, and that the decision was to be made after assessing a number of factors. Other members felt that the schools did not understand the impact of not being open on families who were losing wages due to lack of last minute child care. Other schools on the island were open. Richard Jones would report back to the school. He noted that A level pupils were in the school over the holidays to catch up on lessons lost and that was free of charge.

4.8 Bro Trehinion

Mae'r mater wedi ei ddatrys heb ymyraeth.
The matter has been resolved without intervention.

5 Pwyllgorau a Chyrff Allanol/External Meetings and Organisations

5.1 Adolygiad o Gynghorau Tref a Chymuned / Review of Town and Community Councils

Cafwyd adroddiad gan Gordon Warren yn dilyn gweithdy yng Nghaernarfon. Mae'n debyg bod cynghorau ledled y gogledd yn rhannu'r un pryderon a phroblemau. Nododd bod arian ar gael am pum mlynedd tuag at gynnal asedau sy'n cael eu trosglwyddo. Gofynnwyd i'r clerc wneud ymholiadau pellach.

Gordon Warren gave a report following a workshop in Caernarfon. It appears that councils across the north share the same concerns and face the same problems. He noted that funding was available for up to five years towards maintaining transferred assets. The clerk was asked to make further enquiries.

5.2 Trefi Mon

Nodwyd bod swyddog o'r Cynulliad wedi cwrdd a chynrychiolwyr y grwp yn dilyn diogelu grant tuag at ddatblygu'r bartneriaeth. Nodwyd bod y cynrychiolwyr yn bwriadu ffurfio cwmni i gymryd cyfrifoldeb am asedau cymunedol; nid yw cynghorau yn gallu ffurfio cwmnïau.

It was noted that an officer from the Assembly had met with representatives from the group having secured a grant to develop the partnership. It was noted that the representatives were looking to form a company to take responsibility for community assets; councils are unable to establish companies.

5.3 Craig Y Don

Yn absenoldeb Liz Wood, cafwyd adroddiad gan Myrddin Owens. Cafwyd wybod canlyniadau'r arolwg wedi eu derbyn bellach a bod 16 o dai wedi eu heffeithio, mae 7 o'r rhain yn dai Cyngor a 9 yn dai preifat. Cafwyd wybod bod arweinydd CSYM wedi datgan ei bod yn gobeithio cael grant i gwblhau'r gwaith angenrheidiol. Teimlai'r aelodau bod cyfrifoldeb moesol gan CSYM i ddiogelu'r trigolion a chwblhau'r gwaith. Cynnigwyd ysgrifennu at Dr Gwynne Jones yn gofyn i CSYM dderbyn cyfrifoldeb am y gwaith yn ddi gost i'r preswylwyr.

Roedd Richard Jones a Richard Griffiths yn fodlon a'r ffordd mae CSYM yn ymdrin a'r mater ac am gael yr adroddiad llawn cyn cymryd unrhyw gamau pellach. Roedd Meg Roberts fodd bynnag yn credu byddai llythyr yn ragarweithiol ac yn dangos bod y Cyngor Tref am weld CSYM yn edrych ar ol y preswylwyr fodd bynnag pwy oedd berchen ar yr eiddo. Roedd Gordon Warren yn cytuno bod angen trin pawb yn gyfartal a theg. Nododd Aled Jones a Mike Roberts bod angen i'r Cyngor Tref sefyll a chynrychioli'r gymuned wrth bod gwybodaeth erbyn hyn yn cadarnhau'r nifer o dai oedd wedi eu heffeithio. Nodwyd bod disgwyl i'r Cyngor Sir drafod y mater 21/5/2018. Nid oedd Richard Jones yn fodlon petai'r gost o gwblhau unrhyw waith angenrheidiol yn disgyn ar unigolion, ond roedd am weld yr adroddiad llawn i gael y ffeithiau cyflawn.

Cafwyd pleidlais ac roedd pawb ond dau yn gefnogol o anfon llythyr at Dr Gwynne Jones yn nodi bod gan CSYM gyfrifoldeb moesol i ddiogelu'r trigolion a chwblhau'r gwaith angenrheidiol ar yr holl eiddo yn ddi-gost i'r preswylwyr fodd bynnag pwy sydd berchen arnynt. Ni bleidleisiodd y Cadeirydd ac roedd Richard Griffiths yn atal ei bleidlais.

In the absence of Liz Wood, Myrddin Owens gave a report. He informed the meeting that the survey's results had been received and that 16 properties were affected, seven of these are council owned houses and 9 are privately owned. Members were informed that the IACC Leader had stated she hoped to secure a grant to complete the necessary work. Members felt that IACC had a moral obligation to safeguard the residents and complete the work. It was proposed that a letter be sent to Dr Gwynne Jones asking that IACC accept the responsibility for the work at no cost to the residents.

Richard Jones and Richard Griffiths were satisfied with the way in which IACC were dealing with the matter and wanted to see the full report before taking any further action. Meg Roberts however believed that a letter would be proactive and demonstrate that the Town Council wished to the IACC looking after the residents regardless of who owned the properties. Gordon Warren agreed that everyone should be treated the same and fairly. Aled Jones and Mike Roberts noted that the Town Council should take a stance and represent the community especially so as there is now information confirming the number of properties affected. It was noted that IACC are expected to discuss the matter 21/5/2018. Richard Jones did not want the cost of any required work to fall on individuals, but he wished to see the full report to have the facts in full.

A vote confirmed that all bar two were supportive of sending a letter to Dr Gwynne Jones noting that IACC have a moral obligation to safeguard the residents and complete the required work on the affected properties at no cost to the residents regardless of ownership. The chair did not vote and Richard Griffiths abstained.

6 Adroddiad Pwyllgor Cyllid/Finance Committee Report

Cafwyd grynoldeb o'r cyfarfod gan Myrddin Owens. Nodwyd bod rhestr o daliadau ar gael gan y clerc. Cafwyd wybod bod y pwyllgor wedi trafod cyflogau staff ac yn argymhell bod y Cyngor yn disgwyl am gadarnhad pa ganran newid fydd yn cyflog y clerc (wedi ei osod ar raddfa cyflog NALC),

ac yn codi cyflogau'r glanhawraig a gofalwr yr un canran. Roedd yr holl aelodau yn cytuno a hyn. Trafodwyd cyflogau'r gweithwyr amgylcheddol hefyd. Wrth ystyried eu horiau a'u bod yn hunan gyflogedig ac felly ddim yn cael tal salwch na thal gwylliau ac yn talu eu yswiriant gwladol eu hunain a hefyd yn darparu offer a thannwydd, cytuno codi eu tal pob awr. Roedd Richard Griffiths wedi synnu bod y cyflog mor isel.

Myrddin Owens gave a summary of the meeting. it was noted that a list of payments was available with the clerk. The committee has discussed staff salaries and recommend that the Council wait for confirmation as to the percentage change in the clerk's salary (fixed to the NALC pay-scale) and increase the salary for both the cleaner and caretaker by the same percentage. All members were in agreement. The salaries of the environmental workers were also discussed. Considering their hours and that they are self-employed thus not entitled to holiday or sick pay and pay their own national insurance as well as providing machinery and fuel, it was agreed to increase their hourly rate. Richard Griffiths was surprised that the wage was so low.

7 Materion Priffyrdd / Highway Matters

7.1 Materion Cyffredinol / General Matters

Nodwyd byddai Richard Jones a Richard Griffiths yn mynd ar afael y swyddogion ynglyn a'r gyffordd ger y deintydd unwaith yn rhagor. Cafwyd restr o faterion eraill gan swyddogion CSYM er mwyn eu cymeradwyo gan y Cyngor Tref cyn gallu symud ymlaen yn gyfreithiol –

- Banc Nat West hyd Bro Trehinion - dileu gwaharddiad parcio dros 40 munud - dim gwrthwynebiad
- Stryd Salem ger y deintydd a Bet Fred – llinellau melyn ychwanegol. Dim gwrthwynebiad on pwysleisio bod angen mwy na llinellau melyn i ddatrys y broblem. Nid oedd swyddogion CSYM wedi cydnabod bod Richard Jones a Richard Griffiths yn ymateb ar ran y Cyngor Tref. (gweler 4.5 uchod)
- 35-40 Pen y Cefn – llinellau melyn ar un ochr o'r ffordd – dim gwrthwynebiad.
- Ffordd Tan y Bryn – cydnabod bod problemau parcio ger y fynedfa i Faes Llwyn

Richard Jones and Richard Griffiths will chase up the relevant officers regarding the junction by the dentist again. A list of other matters has been forwarded by IACC officers to be approved by the Town Council before being able to legally progress –

- Nat west Bank to Bro Trehinion – remove the 40 minute restriction – no objection
- Salem Street by the dentist and Bet Fred – additional yellow lines – no objection but emphasis that this area needs more than yellow lines to address the issue. IACC officers had not acknowledged that Richard Jones and Richard Griffiths were responding on behalf of the town Council. (See 4.5 above).
- 35-40 Pen y Cefn – yellow lines on one side of the road – no objection
- Tan y Bryn Rd – acknowledge parking issue by the junction to Maes Llwyn.

7.2 Dwr Cymru / Welsh Water

Daw llythyr gan Terry Thomas, perchenog Telboy's Tackle yn nodi pryder a siom bod Dwr Cymru am fod yn cau a gweithio ar Stryd y Frenhines am gyfnod o chwe mis, a byddai hyn yn lladd y busnesau hynnu sydd ar ol yn y stryd. Nodwyd siom yr aelodau nad oedd cynrychiolwyr Dwr Cymru wedi cysylltu i ofyn am gyfarfod uniongyrchol gyda'r Cyngor Tref. Nodwyd siom hefyd bod y gwaith i'w gwblhau dros gyfnod yr haf. Cytuno cysylltu a Dwr Cymru i'w gwahodd i'r cyfarfod nesaf.

A letter was received from Terry Thomas, owner of Telboy's Tackle noting his concern and disappointment that Welsh Water would be working on and closing Queen Street for a period of six months and that this would kill off any businesses in the street. Members noted their disappointment that representatives from Welsh Water had not contacted the Town Council to request a meeting. Disappointment was also noted that the work was to be completed over the summer months. Agreed to contact Welsh Water and invite them to attend the next meeting.

8 Canolfan Hamdden Amlwch Leisure Centre

Teimlai Meg Roberts yn gryf bod y Ganolfan Hamdden ar ei golled gan fod mwy a mwy yn defnyddio'r ysgol uwchradd. Teimlai bod angen gweithred brys er mwyn diogelu'r ganolfan. Fe ofynnwyd os oedd posib lleihau ffioedd y ganolfan a pheidio a cynnig adnoddau'r ysgol at ddefnydd cymunedol. Byddai cau'r ganolfan hamdden yn cael effaith sylweddol ar gyfleusterau yn y cymuned yn ogystal a chyflogaeth a iechyd. Fe ofynnodd Meg Roberts am gadarnhad gan y Cyngorwyr

Sirol y byddent yn gofyn i CSYM ddod a prisiau 'r ganolfan hamdden i lawr, ac i Richard Jones fel Cadeirydd Llywodraethyr yr ysgol uwchradd i wrthdroi'r penderfyniad i gynnig adnoddau'r ysgol er mwyn diogelu'r ganolfan.

Meg Roberts felt strongly that the Leisure Centre is at a loss that more and more use is made of the secondary school. She felt that urgent action is required to safeguard the centre. It was asked whether the centre's fees could be reduced and not to offer the school's facilities for community use. Closing the leisure centre would have a substantial impact on community facilities as well as employment and health. Meg Roberts asked for confirmation from the County Councillors that they would ask IACC to reduce the leisure centre's fees, and Richard Jones as Chair of the School Governors to rescind the decision to offer the school's facilities in order to safeguard the leisure centre.

9 Wylfa Newydd

Dim diweddariad. Mae trafodaethau yn parhau. / No Update. Discussions are ongoing.

10 Gohebiaeth/Correspondence

Cafwyd wybod am benderfyniadau CSYM am y ceisiadau cynllunio canlynol:

Members were informed of IACC's decision on the following planning applications:

- 38 Market Street (11C655) – Caniatad/Approval
- Wardens House (11LPA657/CC) – Caniatad/Approval
- Siop Wlan, 11 Stryd Mona (11C464A) – Caniatad/Approval
- 5 Park Terrace (11C656) – Caniatad/Approval
- Fron Graig 13 QuayStreet (11C653A) – Caniatad/Approval
- Gwaith ar goed ger Maes Llwyn / work to Trees adj Maes Llwyn – Caniatad/Approval
- Rehau Ltd (11C39B/1/FR) – Gwrthod/Refused

Gofynnwyd i'r clerwr gysylltu a CSYM i gadarnhau pam fod cais Rehau wedi ei wrthod.

The clerk was asked to confirm with IACC as to why Rehau's application had been refused.

11 Unrhyw Fater Arall/Any Other Business

11.1 Mon a/and Gwynedd

Codwyd cwestiwn gan Gareth Roberts ynglyn a'r posibilrwydd y gallai'r ddwy sir yn ymuno yn y dyfodol. Cytuno bod angen cadw Mon fel ag y mai ond cydweithio a datblygu partneriaethau gyda Gwynedd. Nid oedd yr aelodau am weld y ffin yn diflannu eto. Ar hyn o bryd gyda datblygiadau mawr ar y gorwel, mae'n bwysig bod Mon yn edrych ar ol ei asedau ei hun. Mae profiad blaenorol cyn yr ailstrwythuro yn dangos diffyg gwariant a buddsoddiad ym Mon. Cytuno yn unfrydol ysgrifennu at Dr Gwynne Jones a'r Cynulliad i ddatgan barn yr aelodau.

Gareth Roberts raised the question of the possibility of the two counties becoming one in the future. Members agreed that that Anglesey should remain as is but work with and in partnership with Gwynedd. The members did not want to see the boundary disappear again. At present with major development on the horizon it is essential that Anglesey looks after its own assets. Previous experiences prior to re-organisation showed underspend and lack of investment on Anglesey. Agreed unanimously to write to Dr Gwynne Jones and the Welsh Assembly to note the members' viewpoint.

11.2 Arwyddion / Signage

Diolchodd Meg Roberts i CSYM am yr arwyddion newydd ger Pen y Cefn ac fe ofynnodd pa bryd fyddai'r arwyddion yn cael eu gosod yn Stryd Bethesda. Fe ofynnwyd hefyd am arwydd ger cyffordd Shell yn datgan yr enw cywir am y gyffordd.

Meg Evans thanked IACC for the new signs at Pen y Cefn and asked when the signage for Bethesda St would be erected. A sign was also requested for the Shell Junction noting the correct name for the junction.

11.3 Parciau a Mannau Agored / Parks and Open Spaces

Nododd Mike Roberts bod y pwyllgor yn cynnal helpa basg ym Mharc Natur Trehinion ddydd Sul Ebrill 1af. Mae'r digwyddiad am ddim i'r rheini sydd am gymryd rhan. Dewch i gefnogi.

Nododd Myrddin Owens bod cais wedi ei dderbyn gan grwp #CaruAmlwch ar gyfer cael gosod offer ym Maes Mona. Y Cyngor fyddai'n gyfrifol am gynnal a chadw'r offer. Roedd y Pwyllgor Cyllid yn fodlon ar yr amod bod asesiad risg yn cael ei gwblhau a bod perchnogaeth yr offer yn cael ei drosglwyddo i'r Cyngor. Pawb yn derbyn.

Mike Roberts noted that the committee had arranged an Easter hunt at Trehinion Nature Park on Sunday April 1st. the event is free for participants. Please come to support.

Myrddin Owens noted that an application had been received from #CaruAmlwch to install play equipment at Maes Mona. The Council would be responsible for maintaining and insuring the equipment. The Finance Committee were happy on the provision that a risk assessment be completed and that the ownership of the equipment is transferred to the Council. All in agreement.

11.4 Gwyl Integ / Intec Festival

Nodwyd bod y gwyl gyntaf o'i fath yn cael ei gynnal ar gae Sioe Mon yfory. Mae'r digwyddiad i blant a phobl anabl, eu teuluoedd a'u ffrindiau.

It was noted that the first such event was to be held at Mona Showground tomorrow. The event is for children and people with disabilities, their families and friends.

11.5 Noson Elusennol / Charity Evening

Cafwyd wybod gan Richard Jones ei bod yn trefnu cyngerdd elusennol eleni yn hytrach na chinio yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd CSYM. Bydd y noson i'w gynnal yn Neuadd Goffa Amlwch nos Wener 20/4/2018. Mae tocynnau ar gael gan Corwas neu drwy gysylltu a CSYM. Bydd elw'r noson yn cael ei rannu gyda Beinciau Gwaed Cymru (Cangen Mon) a chynllun diffibrileiddwyr cymunedol.

Richard Jones noted that he was arranging a charity concert in lieu of the usual dinner in his capacity as Chair of IACC. The evening is to be held at the Amlwch Memorial Hall on Friday 20/4/2018. Tickets are available from Corwas or by contacting IACC. Proceeds from the evening will be shared between Blood Bikes Wales (Anglesey Branch) and the community defibrillators scheme.

12 Dyddiad y cyfarfod nesaf/Date of next meeting

Bydd y cyfarfod nesaf i'w gynnal Nos Fawrth Ebrill 24 2018 am 7 o'r gloch yn Siambr y Cyngor.

The next meeting will take place on Tuesday April 24 2018 at 7pm in the Council Chamber.

Bu'r cyfarfod orffen am 20.15 / *The meeting closed at 20.15.*

Arwyddwyd / Signed:
Gareth Winston Roberts OBE (Cadeirydd / Chair)